# Cofnodion a gadarnhawyd

# Atodiad B

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | **Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyfarfod Cyhoeddus** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 23 Mai 2024 |

**Datganiad ynghylch canolfannau ymwelwyr**

Diolch i bawb sydd wedi cysylltu ag Aelodau'r Bwrdd, Tîm Gweithredol CNC a swyddogion CNC ynglŷn â'r sefyllfa bresennol o amgylch Canolfannau Ymwelwyr. Roeddwn am wneud datganiad cyffredinol ynglŷn â'u sefyllfa bresennol ac ymdrin â rhai o'r cwestiynau sydd wedi dod i law yn y bwrdd cyhoeddus hwn. Rydym wedi derbyn llawer o ohebiaeth ddefnyddiol am y canolfannau ymwelwyr yr ydym wedi'i hystyried, ac rydym yn gwrando ar y pwyntiau a godwyd gennych. Fodd bynnag, rydym yn gwybod oherwydd bod rhai llythyrau wedi dod i CNC drwy lawer o wahanol lwybrau, efallai y bu rhywfaint o oedi cyn ein hymateb yn ôl i rai ohonoch ac mae'n ddrwg gennym am hynny.

Rydym bellach wedi neilltuo unigolyn penodedig i reoli'r ohebiaeth hon. Rydym wedi cael sawl cwestiwn i'w ymateb gan y bwrdd ac mae rhai ohonynt yn fanwl iawn. Rydym am roi ateb mor llawn â phosibl i chi ac felly bydd eich cwestiynau a'n hymatebion yn cael eu rhannu'n llawn gyda'r holwr ac aelodau'r bwrdd.

Gwyddom oll fod cyllid cyhoeddus yn eithriadol o brin, a bod gennym ddarn o waith parhaus sy'n adolygu'n feirniadol: yr hyn y gallwn ac y mae'n rhaid inni barhau i'w wneud, yr hyn y dylem roi'r gorau iddo, a'r hyn y dylem ei arafu neu ei wneud yn wahanol i gyflawni uchelgeisiau ein Cynllun Corfforaethol gyda'r amgylchedd wrth galon ein holl benderfyniadau.

Gwyddom fod hwn yn ddarn sylweddol o waith a chan ein bod wedi gallu lleihau ein pwysau ariannol, drwy bethau fel recriwtio llymach, rydym bellach wedi ymestyn yr amserlen ar gyfer yr adolygiad ehangach hwn.

Mae hyn yn golygu nad oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto.

**DIWEDD**